

No.

## CABINET

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 27 Chwefror, 2023.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd L. Burnett (Cadeirydd); Cynghorwyr R.M. Birch, B.E. Brooks, G. John, S. Sivagnanam, E. Williams and M.R. Wilson.

Hefyd yn bresennol: Cynghorydd Dr. I.J. Johnson.

### **C232 CYHOEDDIAD -**

Croesawodd yr Arweinydd bawb i gyfarfod y Cabinet ac atgoffodd pawb a oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio ar y rhyngwrdd a bod y recordiad hwn yn cael ei archifo i'w weld yn y dyfodol.

Gofynnodd a fyddai'r holl gyfranogwyr yn diffodd eu meicroffonau pan nad oeddent yn siarad er mwyn osgoi unrhyw sŵn cefndir pan oedd cyfranogwyr eraill yn siarad, a phe bai cyfranogwr yn dymuno siarad, a allent roi ei law i fyny (i'w gweld ar y sgrin) neu ddefnyddio'r swyddogaeth codi llaw.

Gofynnwyd i'r aelodau sicrhau bod pob dadl yn cael ei chodi ar lafar ac nid drwy'r swyddogaeth 'sgwrs' er mwyn y recordiad. Gellid defnyddio'r swyddogaeth 'sgwrs' i dynnu sylw at unrhyw fater technegol a/neu i gael sylw'r Cadeirydd neu'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

Roedd yr Arweinydd wedi ymuno â Maer Bro Morgannwg y dydd Gwener blaenorol mewn digwyddiad i gynnal munud o dawelwch yn y Swyddfeydd Dinesig i nodi blwyddyn ers goresgyniad Rwsia o Wcráin ac ymunodd nifer o bobl Wcráin a oedd wedi dod o hyd i loches a chefnogaeth yn y Fro â nhw. Gan mai hwn oedd cyfarfod cyntaf y Cabinet ers nodi blwyddyn ers dechrau'r rhyfel, a chyfarfod cyntaf y Cabinet ers y daeargryn dinistriol yn Nhwrci a Syria, gofynnodd yr Arweinydd am funud o dawelwch i'r rhai a gollodd eu bywydau. Trosglwyddodd ei diolch i Glwb Pêl-droed Llanilltud Fawr am eu geiriau caredig ar y diwrnod ac am ddangos eu hundod â phobl Wcráin. Soniodd yr Arweinydd yn benodol am y diffoddwr tân lleol Robert Buckley a'i gydweithwyr yng Ngwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a oedd newydd ddychwelyd yn ddiogel o'r daeargrynfeydd yn Nhwrci a Syria, lle bu'n helpu i achub nifer o bobl o adeiladau a oedd wedi dymchwel.

### **C233 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –**

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd M.R. Wilkinson.

**C234 COFNODION –**

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Chwefror, 2023 fel cofnod cywir.

**C235 DATGANIADAU BUDDIANT –**

Y Cynghorydd G. John	Roedd y diddordeb yn ymwneud ag Eitem 14(i) ar yr Agenda – Cyngor Bro Morgannwg – Ffioedd a Thaliadau Arfaethedig ar gyfer 2023/2024 a gymerwyd ar y cyd ag Eitem 6 ar yr Agenda – Cyllideb Derfynol 2023/24 a Chynllun Ariannol Tymor Canolig 2023/24 i 2028/29. Dywedodd y Cynghorydd John fod ganddo fuddiant personol a rhagfarnus yn y mater, fel aelod gydol oes o Glwb Pêl-droed Llanilltud Fawr ond bod ganddo oddefeb gan y Pwyllgor Safonau yn caniatáu iddo siarad a phleidleisio ar faterion o'r fath.
----------------------	--

**C236 STRATEGAETH GYFALAF 2023/24 A CHYNIGION TERFYNOL Y RHAGLEN GYFALAF 2023/24 I 2027/28 (AG/PA) (CRAFFU - PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) –**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, a'i ddiben oedd gosod cynigion terfynol i'r Cabinet eu hystyried, cyn gwneud eu hargymhellion i'r Cyngor, mewn perthynas â'r gyllideb gyfalaf derfynol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2023/24 i 2027/28 ac ystyried y Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2023/24.

Er mwyn i'r mater fynd yn ei flaen i'w ystyried yn y Cyngor Llawn ar 6 Mawrth, 2023, gofynnodd yr Arweinydd i gynnwys argymhelliad ychwanegol ynglŷn â defnyddio'r drefn penderfyniad brys i'r perwyl hwnnw.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y cyfeiriad a oedd ynghlwm wrth y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol ar 15 Chwefror, 2023 a oedd wedi'i ddisbarthu i'r holl Aelodau cyn y cyfarfod ac a oedd yn adlewyrchu'r modd y trafodwyd gwahanol agweddau ar y Rhaglen Gyfalaf, gan gynnwys sylwadau gan y Pwyllgor Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol.

Croesawodd y Pwyllgor ddull y Cyngor o roi anghenion plant ac oedolion agored i niwed o flaen y gofyniad i arbed arian a throsglwyddwyd eu diolch i'r Swyddogion Cyllid.

Fel y cyfryw, nododd y Cabinet sylwadau'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol.

No.

Roedd hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor ei benderfynu.

Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo a nodi cynnwys penderfyniad ychwanegol, daeth y Cabinet i'r casgliadau canlynol:

PENDERFYNWYD –

(1) BOD y Cabinet yn argymhell i'r Cyngor bod y Strategaeth Gyfalaf 2023/24 fel y nodir yn Atodiad 1 o'r adroddiad yn cael ei chymeradwyo.

(2) BOD y Cabinet yn argymhell i'r Cyngor bod y Rhaglen Gyfalaf derfynol ar gyfer y blynyddoedd 2023/24 i 2027/28 fel y nodir yn Atodiad 2 o'r adroddiad yn cael ei chymeradwyo.

(3) BOD y Cabinet yn argymhell i'r Cyngor bod y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau, yn cael awdurdod dirprwyedig i wneud ychwanegiadau, dileadau neu drosglwyddiadau i neu o'r Rhaglen Gwella Tai 2023/24 i 2027/28 fel y bo'n briodol.

(4) BOD y Cabinet yn argymhell i'r Cyngor bod y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau, yn cael awdurdod dirprwyedig i wneud ychwanegiadau, dileadau neu drosglwyddiadau i neu o'r Cyllidebau Adnewyddu Asedau 2023/24 i 2027/28 fel y bo'n briodol.

(5) BOD y Cabinet yn argymhell i'r Cyngor bod y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau, yn cael awdurdod dirprwyedig i wneud ychwanegiadau, dileadau neu drosglwyddiadau i gynlluniau a ariennir gan A106 yn amodol ar ymgynghori ag Aelodau yn ôl yr angen dan y broses bresennol.

(6) BOD y Cabinet yn argymhell i'r Cyngor bod y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau, yn cael awdurdod dirprwyedig i wneud ychwanegiadau, dileadau neu drosglwyddiadau i neu o'r Cynlluniau Rheoli Ynni.

(7) BOD y Cabinet yn argymhell i'r Cyngor bod y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau, yn cael awdurdod dirprwyedig i wneud ychwanegiadau, dileadau neu drosglwyddiadau i neu o'r cynlluniau Cronfa Creu Cymunedau Cryf.

(8) BOD y Cabinet yn argymhell i'r Cyngor bod y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau, yn cael awdurdod dirprwyedig i wneud ychwanegiadau, dileadau neu drosglwyddiadau i neu o Raglen Band B Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (cynlluniau Ysgolion yr 21ain Ganrif gynt).

(9) BOD y Cabinet yn cymeradwyo ailbroffilio'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ar gyfer y blynyddoedd 2022/23 i 2027/28 fel y dangosir ym mharagraff 2.51 o'r adroddiad hwn.

No.

(10) BOD y Cabinet yn cymeradwyo cario ymlaen cyllideb o £557,000 ar gyfer Cynllun y Fargen Ddinesig i'r Rhaglen Gyfalaf 2023/24.

(11) BOD defnydd o'r weithdrefn penderfyniadau brys fel y'i nodir yn Adran 15.14 o Gyfansoddiad y Cyngor yn cael ei chymeradwyo er mwyn i'r adroddiad gael ei gyfeirio at y Cyngor Llawn ar 6 Mawrth, 2023 i'w ystyried a'i gymeradwyo.

#### Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Cymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2023/24.
- (2) Pennu a chymeradwyo Rhaglenni Cyfalaf y dyfodol hyd at 2027/28.
- (3) Galluogi'r gyllideb Cyfalaf Tai i gael ei rheoli'n effeithiol.
- (4) Galluogi'r cyllidebau Adnewyddu Asedau i gael eu rheoli'n effeithiol.
- (5) Galluogi cynlluniau A106 i gael eu rheoli'n effeithiol.
- (6) Galluogi'r cynlluniau Rheoli Ynni i gael eu rheoli'n effeithiol.
- (7) Galluogi'r Gronfa Creu Cymunedau Cryfach i gael ei rheoli'n effeithiol.
- (8) Galluogi Band B y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy i gael ei rheoli'n effeithiol.
- (9) Adlewyrchu rhaglen waith cynlluniau Band y Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.
- (10) Adlewyrchu cynllun busnes diweddaraf y Fargen Ddinesig.
- (11) Caniatáu i Strategaeth Gyfalaf 2023/24 a Chynigion Rhaglen Gyfalaf derfynol 2023/24 i 2027/28 gael eu cyfeirio at y Cyngor ar 6 Mawrth, 2023 i'w hystyried a'u cymeradwyo.

### **C237 STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS A BUDDSODDI 2023/24 A DIWEDDARIAD 2022/23 (AG/PA) (CRAFFU - PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) –**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, a'i ddiben oedd darparu adroddiad dros dro ar weithrediadau Rheoli Trysorlys y Cyngor am y cyfnod o 1 Ebrill i 31 Rhagfyr, 2022 a chyflwyno i'w hystyried Strategaeth Rheoli a Buddsoddi'r Trysorlys a Pholisi Rheoli'r Trysorlys 2023/24 arfaethedig.

Roedd yr Arweinydd yn falch bod yr holl Aelodau wedi'u gwahodd i fynychu sesiwn hyfforddi ar Reoli'r Trysorlys a oedd yn digwydd y prynhawn hwnnw ac yn edrych ymlaen at drafodaeth fanwl.

No.

Er mwyn i'r mater fynd yn ei flaen i'w ystyried yn y Cyngor Llawn ar 6 Mawrth, 2023, gofynnodd yr Arweinydd am gynnwys penderfyniad ychwanegol ynghylch y defnydd o'r drefn penderfyniad brys i'r perwyl hwnnw.

Roedd hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor ei benderfynu.

Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo a nodi cynnwys penderfyniad ychwanegol, daeth y Cabinet i'r casgliadau canlynol:

PENDERFYNWYD –

- (1) BOD adroddiad dros dro Rheoli'r Trysorlys am y cyfnod 1 Ebrill i 31 Rhagfyr, 2022 yn cael ei nodi a'i gymeradwyo.
- (2) BOD y Cabinet yn argymhell i'r Cyngor bod y polisi ar gyfer gwneud Darpariaeth Isafswm Refeniw yn 2023/24 yn cael ei gymeradwyo.
- (3) BOD y Cabinet yn argymhell i'r Cyngor bod y Strategaeth Rheoli a Buddsoddi'r Trysorlys 2023/24 arfaethedig gan gynnwys y penderfyniad penodol a ganlyn (manylir yn Atodiad 1) yn cael ei chymeradwyo.

- Gosod y Terfyn Awdurdodedig ar gyfer Dyled Allanol ar £225.439m ar gyfer 2022/23, £247.141m ar gyfer 2023/24, £276.773m ar gyfer 2024/25 a £305.927m ar gyfer 2025/26.
- Gosod y Ffin Weithredol ar gyfer Dyled Allanol ar £212.292m ar gyfer 2022/23.
- £234.021m ar gyfer 2023/24, £263.349m ar gyfer 2024/25 a £292.295m ar gyfer 2025/26.
- Bod y Swyddog Adran 151 yn cael awdurdod dirprwyedig o fewn cyfanswm y Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Weithredol fel y'i hamcangyfrifwyd ar gyfer blynyddoedd unigol i greu symudiad rhwng y terfynau y cytunwyd arnynt ar wahân ar gyfer benthycyca a rhwymedigaethau hirdymor eraill.
- Mae terfyn uchaf o £10m ar gyfer 2022/23, £10m ar gyfer 2023/24, £10m yn 2024/25 a £10m yn 2025/26 wedi'i osod ar gyfer cyfanswm y prif symiau a fuddsoddir am dros 364 diwrnod.
- Gosodir swm y benthycyca rhagweledig sy'n gyfradd sefydlog sy'n aeddfedu ym mhob cyfnod fel canran o gyfanswm y benthyciadau rhagweledig sy'n gyfradd sefydlog ar gyfer 2023/24 fel a ganlyn:

	Terfyn Uchaf	Terfyn Isaf
O dan 12 mis	20%	0%
12 mis ac o fewn 24 mis	20%	0%
24 mis ac o fewn 5 mlynedd	30%	0%
5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd	40%	0%

No.

10 mlynedd a throsodd	100%	0%
-----------------------	------	----

- BOD y Dangosyddion Darbodus fel y'i nodir yn Atodiad 1 yn cael eu cymeradwyo.
- BOD Datganiad Polisi Rheoli'r Trysorlys fel y'i nodir yn Atodiad 2 yn cael ei gymeradwyo.

(4) BOD Arferion Rheoli'r Trysorlys fel y'i nodir yn Atodiad 3 yn cael eu nodi.

(5) BOD defnydd o'r weithdrefn penderfyniadau brys fel y'i nodir yn Adran 15.14 o Gyfansoddiad y Cyngor yn cael ei gymeradwyo er mwyn i'r Adroddiad gael ei gyfeirio at y Cyngor Llawn ar 6 Mawrth, 2023 i'w ystyried a'i gymeradwyo.

#### Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Cyflwyno Adroddiad Dros Dro Rheoli'r Trysorlys.

(2) Cytuno ar sail cyfrifiad y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw ar gyfer 2023/24.

(3) Paratoi Strategaeth Flynyddol Rheoli a Buddsoddi'r Trysorlys yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol 2003.

(4) Sicrhau bod Arferion Rheoli'r Trysorlys yn cael eu hadolygu'n rheolaidd yn unol â Rheoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus: Cod Ymarfer a Chanllaw Trawsadrannol (Argraffiad 2021).

(5) Caniatáu i Strategaeth Rheoli a Buddsoddi'r Trysorlys 2023/24 a Diweddariad 2022/23 gael eu cyfeirio at y Cyngor ar 6 Mawrth, 2023 i'w hystyried a'u cymeradwyo.

#### **C238 CYLLIDEB DERFYNOL 2023/24 A CATC 2023/24 I 2028/29 (AG/PA) (CRAFFU - PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) –**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, a'i diben oedd cyflwyno cynigion terfynol i'r Cabinet ar gyfer y gyllideb refeniw ar gyfer 2023/24 a diweddariad i'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2023/24 i 2028/29.

Er mwyn i'r mater fynd yn ei flaen i'w ystyried yn y Cyngor Llawn ar 6 Mawrth, 2023, gofynnodd yr Arweinydd am gynnwys penderfyniad ychwanegol ynghylch y defnydd o'r drefn penderfyniad brys i'r perwyl hwnnw.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y cyfeiriad a oedd ynghlwm wrth y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol ar 15 Chwefror, 2023 a oedd wedi'i ddsbarthu i'r holl Aelodau cyn y cyfarfod. Dywedodd hefyd fod y cyfeiriad o'r un Pwyllgor y penderfynodd y Cadeirydd ei fod yn un brys o dan Eitem 14(i) ar yr Agenda ac a ddsbarthwyd i'r Aelodau cyn y cyfarfod yn ymwneud â'r adroddiad y byddai hefyd yn cael ei ystyried ochr yn ochr â'r adroddiad.

No.

Dyweddod ei bod wedi bod yn gylch cyllideb anodd gyda llawer iawn o ansicrwydd mewn amgylchedd economaidd heriol iawn a oedd yn gwneud gwaith cynllunio ariannol yn anodd. Amcangyfrifwyd y byddai pwysau costau ym mis Hydref 2022 yn £38m tra'n dal i ystyried y cynnydd mewn chwyddiant, cynnydd ar gyfer cyflogau a chostau ynni cynyddol. Yn dilyn y setliad a oedd wedi bod yn well na'r disgwyl, y bwlch cyffredinol bellach oedd £7.378m yr oedd yn rhaid ei reoli trwy arbedion a rheoli nifer o flaenoriaethau i ddod â chyllideb gytbwys ymlaen tra'n diogelu gwasanaethau ar gyfer y rhai mwyaf agored i niwed yn y Sir a chyllid ar lefel gynaliadwy i ysgolion. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i'r gwaith o reoli'r defnydd o gronfeydd wrth gefn ar sail untro.

Ar gyfer Gofal Cymdeithasol, roedd £8m ychwanegol yn y gyllideb, sy'n sylweddol uwch na chynnydd Llywodraeth Cymru gan sicrhau y gallai'r Cyngor gomisiynu'r gofal cartref angenrheidiol a diwallu anghenion y sector gofal preswyl. Byddai ysgolion yn derbyn swm ychwanegol o £10.4m, gan gynnwys cymorth untro, cynnydd o fwy na 9%, sy'n cydnabod yr holl gostau chwyddiant a wynebir ond hefyd yn derbyn bod angen rhai arbedion hefyd.

Roedd lefel Treth Cyngor Bro Morgannwg yn is na chyfartaledd Cymru a byddai'r cynnydd arfaethedig o 4.9% yn golygu y byddai'r sefyllfa honno'n parhau.

Roedd yn rhaid gwneud dewisiadau anodd wrth nodi'r pecyn arbedion o £4.65m ond cydnabuwyd bod yn rhaid i ffioedd a thaliadau gynyddu yn unol â chostau cynyddol, yn enwedig o ran gwasanaethau anstatudol a oedd yn gorfod symud tuag at fod yn gost niwtral.

Roedd materion wedi'u trafod yn helaeth gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol o fewn y ddau gyfeiriad. Dywedodd yr Arweinydd ei bod wedi cael gwahoddiad i gael trafodaethau gyda busnesau lleol ynghylch trwyddedau caffï stryd a byddai'n hapus i wneud hynny. Roedd cadis hylendid yn bwnc arall a drafodwyd ond nid oedd yn wasanaeth gorfodol a oedd, er ei fod o fudd i drigolion lleol, â goblygiadau o ran cost, storio a dosbarthu i'r Cyngor.

Roedd modd adolygu'r ddau fater ac felly, nododd y Cabinet sylwadau'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol.

Gofynnodd yr Arweinydd i adran Pwyllgorau Craffu Perthnasol ar ddechrau'r adroddiad gael ei diwygio i 'Bwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol', yn hytrach na 'Pob Pwyllgor Craffu', a gytunwyd.

Roedd hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor ei benderfynu.

Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo a nodi'r newid i'r adran Pwyllgor Craffu Perthnasol ar ddechrau'r adroddiad a chynnwys penderfyniad ychwanegol, daeth y Cabinet i'r casgliadau canlynol:

**PENDERFYNWYD –**

(1) BOD sefyllfa ariannol ddiweddaraf fel y manylwyd arni yn yr Adroddiad yn cael ei nodi.

No.

- (2) BOD y Cabinet yn argymhell i'r Cyngor bod y cynnydd o 4.9% yn y dreth gyngor yn cael ei gymeradwyo.
- (3) BOD y Cabinet yn argymhell i'r Cyngor bod y gyllideb ar gyfer 2023/24 yn cael ei chymeradwyo.
- (4) BOD y rhagolygon ar gyfer y tymor canolig hyd at 2027/28 yn cael eu nodi.
- (5) BOD dim newidiadau i'r ffioedd a'r taliadau arfaethedig a gymeradwywyd ar gyfer yr Ymgynghoriad ym mis Ionawr yn dilyn adolygiad gan y Pwyllgor Craffu i'w nodi.
- (6) BOD cronfeydd wrth gefn wedi'u hailalinio i gyd-fynd â'r risgiau yr oedd y Cyngor yn eu hwynebu nawr yn cael eu nodi.
- (7) BOD sylwadau'r Swyddog Adran 151 ar ddigonolrwydd y cronfeydd wrth gefn a chadernid yr amcangyfrifon ym mharagraffau 2.91 i 2.97 yn cael eu nodi.
- (8) BOD y trefniadau sydd ar waith i sicrhau y cyflawnir y rhaglen arbedion o £7.378m yn cael eu nodi.
- (9) BOD y defnydd o'r weithdrefn penderfyniadau brys fel y'i nodir yn Adran 15.14 o Gyfansoddiad y Cyngor yn cael ei gymeradwyo er mwyn i'r adroddiad gael ei gyfeirio at y Cyngor Llawn ar 6 Mawrth, 2023 i'w ystyried a'i gymeradwyo.
- (10) BOD newid i'r adran Pwyllgorau Craffu Perthnasol ar ddechrau'r adroddiad yn cael ei nodi.

#### Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Roedd yn bwysig bod y Cabinet yn cael ei hysbysu'n rheolaidd am sefyllfa ariannol tymor canolig y Cyngor.
- (2) Roedd gosod cyfradd flynyddol y dreth gyngor yn benderfyniad polisi allweddol i'r Cyngor.
- (3) Roedd gosod cyllideb gytbwys yn gyfrifoldeb statudol ac yn benderfyniad i'r Cyngor.
- (4) Roedd cynaliadwyedd yn un o egwyddorion sylfaenol y Strategaeth Ariannol.
- (5) Cadarnhau ffioedd a thaliadau ar gyfer 2023/24.
- (6) Roedd yr adolygiad o'r cronfeydd wrth gefn yn un o egwyddorion sylfaenol y Strategaeth Ariannol.
- (7) Roedd gan y Swyddog Adran 151 ddyletswydd statudol i wneud sylwadau ar ddigonolrwydd y cronfeydd wrth gefn a chadernid yr amcangyfrifon.



No.

- (8) Sicrhau y gellir cyflawni'r holl arbedion yn llawn ar gyfer 2023/24.
- (9) Caniatáu i Gyllideb Derfynol 2023/24 a Chynllun Ariannol Tymor Canolig 2023/24 i 2028/29 gael eu cyfeirio at y Cyngor ar 6 Mawrth, 2023 i'w hystyried a'u gymeradwyo.
- (10) Cyfeirio at y Pwyllgor Craffu priodol.

### **C239 DIWEDDARIAD AR Y COD RHEOLAETH ARIANNOL 2022/23 (AG/PA) (CRAFFU - PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) –**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, a'i ddiben oedd ystyried cydymffurfedd y Cyngor â Chod Rheolaeth Ariannol 2022/23, paratodau ar gyfer 2023/24 a rhagolygon ar gyfer gwella.

Dywedodd yr Arweinydd fod yr amgylchiadau ariannol eithriadol a wynebwyd gan awdurdodau lleol yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn peri pryder, yn enwedig gan fod nifer sylweddol o awdurdodau lleol yn Lloegr â chyfrifoldebau gofal cymdeithasol yn rhagweld y gallent gyhoeddi Hysbysiadau Adran 114 oherwydd eu bod yn cael anawsterau rheoli cyllid.

Roedd dangos cydymffurfedd â'r Cod Rheolaeth Ariannol yn gyfrifoldeb ar y cyd i'r Swyddogion a'r Aelodau Etholedig, gyda chydymffurfedd â safonau proffesiynol a chraffu gwleidyddol y cyfeirir ato yn Natganiad y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth o Egwyddorion Rheolaeth Ariannol Dda.

Roedd hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith ei benderfynu.

Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo, daeth y Cabinet i'r casgliadau canlynol:

**PENDERFYNWYD –**

- (1) BOD y Datganiad ar Gydymffurfedd â'r Cod Rheolaeth Ariannol a chynnwys yr adolygiad a nodir yn Atodiad 1 yn cael eu cymeradwyo.
- (2) BOD yr adroddiad yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgorau Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol i'w ystyried a bod unrhyw sylwadau yn cael eu dwyn yn ôl i'r Cabinet.

#### Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Sicrhau bod yr Aelodau'n ystyried cydymffurfedd y Cyngor â'r Cod Rheolaeth Ariannol fel rhan o'u cyfrifoldeb ar y cyd ar gyfer cydymffurfedd â'r Cod.
- (2) Ceisio sicrwydd pellach ar drefniadau Rheolaeth Ariannol y Cyngor.

**C240 CYNLLUN RHEOLI ASED AU CORFFORAETHOL 2023-2028 (AG/PA)  
(CRAFFU - PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) –**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, a'i ddiben oedd ceisio cymeradwyaeth i fabwysiadu'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol 2023-2028 newydd.

O ran y pwyntiau gwefru cerbydau a oedd wedi'u gosod yn y Swyddfeydd Dinesig, dywedodd yr Arweinydd ein bod yn ceisio eu gwneud yn agored i staff ac ymwelwyr yn y dyfodol pan fydd y seilwaith priodol ar waith.

Gofynnodd yr Arweinydd i Argymhelliad (2) gael ei ddiwygio i gyfeirio'r adroddiad at y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol i'w ystyried yn hytrach nag er gwybodaeth, gan gyfeirio unrhyw sylwadau yn ôl i'r Cabinet, yn ogystal â chynnwys trydydd argymhelliad i ddiolch i'r Swyddogion a fu'n gweithio ar y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol am yr holl waith a wnaed i gynhyrchu'r adroddiad, a gytunwyd.

Roedd hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith ei benderfynu.

Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo a nodi'r newid i Argymhelliad 2 a chynnwys penderfyniad ychwanegol, daeth y Cabinet i'r casgliadau canlynol:

**PENDERFYNWYD –**

- (1) BOD y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol newydd 2023-2028 sydd ynghlwm yn Atodiad A i'r adroddiad hwn yn cael ei gymeradwyo.
- (2) BOD Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol 2023-2028 yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol i'w ystyried gan gyfeirio unrhyw sylwadau yn ôl i'r Cabinet.
- (3) BOD y Swyddogion a oedd wedi gweithio ar y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol yn cael eu diolch am y gwaith a wnaed i gynhyrchu'r adroddiad.

**Rhesymau dros benderfyniadau**

- (1) Sicrhau bod gan y Cyngor strategaeth glir ar gyfer rheoli ei eiddo yn unol â gofynion y Cynllun Corfforaethol ac Amcanion Llesiant.
- (2) Sicrhau bod y Pwyllgor Craffu perthnasol yn ymwybodol o'r cynllun diwygiedig hwn.
- (3) Cydnabod y rhai sy'n gyfrifol am gynhyrchu'r adroddiad.

## **C241 STRATEGAETH POBL A DOGFENNAU ATEGOL (AG/PA) (CRAFFU - PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) –**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, a'i ddiben oedd hysbysu'r Cabinet a cheisio cytundeb ar gyfer ymgynghori ar Strategaeth Pobl ddiwygiedig a hysbysu am ddogfennau polisi ategol a oedd yn cyd-fynd â'r Strategaeth Pobl, yr atodwyd i'r adroddiad, a oedd yn cynnwys y canlynol:

- Cynllun Gweithredu Gweithlu Strategol
- Strategaeth Gweithio Hybrid
- Cynllun Dysgu a Datblygu
- Polisi Gwirfoddolwyr

Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer ymgynghori ymhellach â staff a phartneriaid, o ystyried pwysigrwydd y strategaeth a'r dogfennau ategol i ffordd o weithio'r sefydliad yn y dyfodol ac yn unol â phwysau costau yn y dyfodol a chyfeirio'r un peth at y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol.

Roedd hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor ei benderfynu.

Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo, daeth y Cabinet i'r casgliadau canlynol:

### **PENDERFYNWYD –**

- (1) BOD yr adroddiad a'r atodiadau'n cael eu cymeradwyo fel sail ar gyfer ymgynghoriad fel y disgrifir yn yr adroddiad.
- (2) BOD yr adroddiad a'r atodiadau'n cael eu cyfeirio at y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol i'w hystyried fel rhan o'r broses ymgynghori chwe wythnos.
- (3) BOD unrhyw sylwadau gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Cabinet fel rhan o adroddiad yn y dyfodol yn adlewyrchu ar yr ymgynghoriad ehangach gyda staff a sefydliadau partner.
- (4) BOD awdurdod dirprwyedig, yn unol â Phenderfyniad (1), yn cael ei roi i'r Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol, mewn ymgynghoriad ag Arweinydd a Chyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol, i gytuno ar gynllun ymgynghori a'i gyflwyno.
- (5) BOD adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno gerbron y Cabinet ar ôl i'r ymarfer ymgynghori ddod i ben i fwrw ymlaen â mabwysiadu'r Strategaeth Pobl a'r dogfennau cysylltiedig.

### **Rhesymau dros benderfyniadau**

- (1) Caniatáu i'r Cabinet ystyried y Strategaeth Pobl a'r dogfennau cysylltiedig.

No.

- (2) Galluogi'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol i ystyried yr adroddiad.
- (3) Hysbysu ystyriaeth y Cabinet o fersiwn terfynol y Strategaeth Pobl a'r dogfennau cysylltiedig.
- (4) Galluogi cynllun ymgynghori i gael ei ddatblygu a'i gyflawni.
- (5) Galluogi'r Cabinet i ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad cyn mabwysiadu'r Strategaeth Pobl a'r dogfennau cysylltiedig.

## **C242 POLISI A STRATEGAETH CAFFAEL (AG/PA) (CRAFFU - PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) –**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, a'i ddiben oedd cymeradwyo Polisi a Strategaeth 2022.

Gofynnodd yr Arweinydd am ddiwygio Argymhelliad (1) i gymeradwyo'r Polisi a Strategaeth Caffael, yn amodol ar i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol dderbyn yr adroddiad i'w ystyried ac nad oedd ganddo unrhyw sylwadau nac argymhellion, a gytunwyd.

Roedd hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith ei benderfynu.

Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo a nodi'r diwygiad i Argymhelliad (1), daeth y Cabinet i'r casgliadau canlynol:

### **PENDERFYNWYD –**

- (1) BOD Polisi a Strategaeth 2022 yn cael eu cymeradwyo, yn amodol ar Benderfyniad (2).
- (2) BOD yr adroddiad a'r atodiadau i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol yn cael eu cyfeirio at y Pwyllgor i'w hystyried, a chymeradwyo'r Polisi a Strategaeth pe na bai angen unrhyw ddiwygiadau sylweddol iddynt yn dilyn ystyriaeth gan y Pwyllgor.
- (3) BOD adroddiad pellach yn cael ei argymhell i'r Cyngor Llawn i ddiwygio Rheolau Gweithdrefn Contractau'r Cyngor, fel y'u nodir yng Nghyfansoddiad y Cyngor, i adlewyrchu ystyriaethau Gwerth Cymdeithasol, fel y cyfeirir atynt ym mharagraff 2.8 yr adroddiad.
- (4) BOD y Datganiad Caethwasiaeth Fodern blynyddol yn cael ei gymeradwyo i'w gyhoeddi ar wefan y Cyngor a rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor i'w adolygu a'i ailgyhoeddi'n flynyddol.
- (5) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor i ddiweddarau adran

No.

Gweithredu ar y Newid yn yr Hinsawdd y Polisi a Strategaeth pan fydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno ei phechyn cymorth.

(6) BOD y Polisi a'r Strategaeth yn cael adolygiad mawr bob pum mlynedd a bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd i adolygu'r ddogfen yn flynyddol a diweddarau newidiadau yn y polisi Cymraeg a pholisi'r Cyngor.

#### Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Roedd y Polisi a'r Strategaeth bresennol wedi dyddio ac angen eu hadolygu.
- (2) Galluogi'r Pwyllgor Craffu i ystyried cynnwys yr adroddiad, a chymeradwyo'r Polisi a Strategaeth os nad oes angen unrhyw newidiadau sylweddol.
- (3) Mae angen i'r Rheolau Gweithdrefnau Contractau alinio â dyheadau'r Polisi a'r Strategaeth.
- (4) Roedd yn gyfrifoldeb statudol i gyhoeddi Datganiad Caethwasiaeth Fodern yn flynyddol.
- (5) Roedd pecyn cymorth Llywodraeth Cymru wedi'i oedi ond dylid ei ymgorffori yn y Polisi a'r Strategaeth.
- (6) Roedd yn bwysig bod y Polisi a'r Strategaeth yn cael eu diweddarau'n rheolaidd a'u bod yn parhau i fod yn gyfredol.

#### **C243 GWASANAETH CAFFAEL – TREFNIADAU DARPARU GWASANAETH NEWYDD A CHYTUNDEB DIRPRWYO (AG/PA) (CRAFFU - PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) –**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, a'i ddiben oedd ymrwymo i drefniadau rhannu gwasanaeth gyda Chaerdydd ar gyfer y gwaith o gyflawni'r Swyddogaeth Gaffael.

Dywedodd yr Arweinydd fod cydweithrediadau blaenorol wedi eu sefydlu, e.e., roedd y Gwasanaeth Archwilio a Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir wedi gweithio'n llwyddiannus iawn ac er budd y Cyngor, felly byddai cydweithio â Chaerdydd yn fuddiol ac yn cryfhau gwydnwch. Byddai hefyd yn darparu mynediad at fewnbwn caffael mwy arbenigol, yn dod â chymorth strategol a mewnbwn dadansoddol i'r Cyngor ac yn caniatáu i'r Cyngor fod yn fwy rhagweithiol mewn gweithgarwch caffael gyda Chynghorau Caerdydd, Torfaen a Sir Fynwy. Byddai cydweithio hefyd yn creu cyfleoedd ac arbedion effeithlonrwydd drwy ymarferion caffael y cydnabuwyd eisoes bod gan Gaerdydd dull gweithredu sefydledig ar eu cyfer.

Roedd hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith ei benderfynu.

No.

Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo, daeth y Cabinet i'r casgliadau canlynol:

PENDERFYNWYD –

- (1) BOD cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi.
- (2) BOD y cynnig i wneud Cytundeb Dirprwyo gyda Chyngor Caerdydd i gyflawni'r Swyddogaeth Caffael Corfforaethol yn cael ei gymeradwyo.
- (3) BOD awdurdod yn cael ei ddirprwyo i'r Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i weithredu'r Cytundeb Dirprwyo angenrheidiol gyda Chyngor Caerdydd o 1 Ebrill, 2023 am gyfnod o dair blynedd.
- (4) BOD y Cabinet yn derbyn diweddariad pellach ar ôl i'r Cytundeb Dirprwyo fod ar waith am flwyddyn i ystyried cynnydd.

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Arfarnu'r Cabinet am y cynigion.
- (2) Darparu'r awdurdod i ymrwymo i drefniadau cyfreithiol angenrheidiol.
- (3) Galluogi'r Cyngor i ymrwymo'n ffurfiol i'r Cytundeb Dirprwyo.
- (4) Diweddarau'r Cabinet ar y cynnydd a wnaed.

#### **C244 AILGOMISIYNU GWASANAETHAU CYMORTH I DEULUOEDD YM MRO MORGANNWG (GCI) (CRAFFU - BYW'N IACH A GOFAL CYMDEITHASOL)**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad, a'i ddiben oedd ceisio awdurdod i ail-gomisiynu'r Contract Gwasanaeth Cymorth Rhanbarthol i Deuluoedd Plant presennol a oedd i fod i ddod i ben ar 30 Mehefin, 2023 ac i geisio awdurdod dirprwyedig i ddyfarnu'r contract i'r darparwr llwyddiannus.

Dywedodd y Cynghorydd Williams ei bod yn hanfodol sicrhau bod camau'n cael eu cymryd yn gynnar a gwneud yr hyn y gellid ei wneud yn gynnar i leihau'r effaith hirdymor ar blant a allai gael eu heffeithio a rheoli'r adnoddau a'r Cyngor yn effeithiol. Dywedodd fod galw a chymhlethdod cynyddol yn dilyn pandemig COVID-19 a bod nifer y teuluoedd a'r plant yr effeithiwyd arnynt wedi cynyddu hyd at 30% dros y cyfnod hwnnw.

Croesawodd y Cynghorydd Brooks yr adroddiad gan fod cynnydd wedi bod ym mhroblemau iechyd meddwl ymhlith plant yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, yr oedd gan lawer ohonynt eisoes anghenion cymhleth cyn y pandemig a chroesawodd y symudiad i wella profiadau plant.

Dywedodd yr Arweinydd y byddai ganddi ddiddordeb mewn gweld sut mae pobl ifanc yn ymgysylltu ag elfen ansawdd y broses.

No.

Roedd hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith ei benderfynu.

Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo, daeth y Cabinet i'r casgliadau canlynol:

PENDERFYNWYD –

(1) BOD y gwaith o ailgomisiynu'r Contract Gwasanaethau Cymorth Rhanbarthol i Deuluoedd Plant presennol, sy'n dod i ben ar 30 Mehefin, 2023 drwy broses gaffael gael ei awdurdodi. Gwerth y contract presennol oedd £1.07 miliwn y flwyddyn dros y tair lot, er y nodwyd bod cyllid ar gyfer comisiynu yn y dyfodol yn cael ei adolygu, a byddai cynnydd cyllid yn y dyfodol yn cael ei gytuno yn unol â phroses gosod cyllideb y Cyngor.

(2) BOD, yn dilyn cwblhau'r broses dendro, y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd, yn cael ei awdurdodi i ddyfarnu'r contract(au) am y gwasanaeth am gyfnod cychwynnol o bedair blynedd gyda'r opsiwn i ymestyn am hyd at bedair blynedd arall.

(3) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i drafod, drafftio a gweithredu contract(au) gyda'r cynigydd/cynigwyr llwyddiannus.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Sicrhau bod y Cyngor yn darparu Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd mewn ffordd gosteffeithiol ac yn diwallu anghenion asesedig plant a phobl ifanc a'u teuluoedd.

(2) Cyflawni'r cyfrifoldebau fel y'i nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

(3) Bodloni gofynion y Rheolau Gweithdrefn Contract a'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol.

**C245 CYNLLUN DATBLYGU LLEOL BRO MORGANNWG 2011-2026:  
CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL AR DDATBLYGU MANWERTHU A  
CHANOL TREFI A DATBLYGU ECONOMAIDD, TIR AC ADEILADAU  
CYFLOGAETH – ADBORTH YMGYNGHORI, NEWIDIADAU ARFAETHEDIG A  
MABWYSIADU (YGCGR) (CRAFFU - AMGYLCHEDD AC ADFYWIAD**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad, a'i ddiben oedd hysbysu'r Cabinet o ganlyniadau'r ymgynghoriad a gynhaliwyd ar y Canllawiau Cynllunio Atodol drafft mewn perthynas â Datblygu Manwerthu a Chanol Trefi a Datblygiad Economaidd, Cyflogaeth, Tir ac Adeiladau a cheisio cymeradwyo gweithredu'r newidiadau arfaethedig a mabwysiadu'r Canllawiau Cynllunio Atodol at ddibenion rheoli datblygu.

Dyweddodd yr Arweinydd fod pump neu chwech o ganol trefi ym Mro Morgannwg a bod gan bob un hanes a nodweddion gwahanol, bod y Canllawiau Cynllunio Atodol wedi'u diweddarau yn cydnabod y gwahaniaethau hynny a bod angen egwyddorion allweddol o ran datblygu a chefnogi canol trefi.

Roedd hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith ei benderfynu.

Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo, daeth y Cabinet i'r casgliadau canlynol:

#### PENDERFYNWYD –

- (1) BOD cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi a bod yr ymatebion i'r sylwadau a dderbyniwyd ar y Canllawiau Cynllunio Atodol drafft sydd ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad yn cael eu cymeradwyo.
- (2) BOD y Canllawiau Cynllunio Atodol diwygiedig sydd ynghlwm wrth yr adroddiad fel Atodiadau 2 a 3, yn cael eu cymeradwyo, yn amodol ar ddarpariaethau Penderfyniad (3), i'w defnyddio ar unwaith mewn penderfyniadau rheoli datblygu ochr yn ochr â'r Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig.
- (3) BOD Pennaeth Datblygu Cynaliadwy yn cael ei awdurdodi i gytuno ar fformat terfynol ac unrhyw fân newidiadau teipograffyddol a mân newidiadau angenrheidiol i'r Canllawiau Cynllunio Atodol cyn eu cyhoeddi, a'u diweddarau wedi hynny gydag unrhyw ddiweddariadau ffeithiol mewn ymateb i newidiadau polisi neu ddeddfwriaethol fel y bo'n briodol.
- (4) BOD Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio'n cael eu hysbysu o ganlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus a mabwysiadu'r Canllawiau Cynllunio Atodol.

#### Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Darparu crynodeb o'r ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd ar y Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Datblygu Manwerthu a Chanol Trefi a Datblygiad Economaidd, Cyflogaeth, Tir ac Adeiladau; a cheisio cymeradwyaeth y Cabinet i'r ymatebion a'r newidiadau i'r Canllawiau Cynllunio Atodol terfynol.
- (2) Sicrhau bod ceisiadau cynllunio'n cael eu hystyried yn effeithiol a rhoi mynediad i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, ymgeiswyr a datblygwyr i ganllawiau mwyaf diweddar y Cyngor mewn perthynas â Datblygu Manwerthu a Chanol Trefi a Datblygiad Economaidd, Cyflogaeth, Tir ac Adeiladau.
- (3) Ymgymryd ag unrhyw newidiadau a/neu ddiwygiadau angenrheidiol o ganlyniad i'r adolygiad cyfredol o Bolisi Cynllunio Cymru gan Lywodraeth Cymru a galluogi cywiro unrhyw wallau teipio neu fân wallau a ganfuwyd yn y Canllaw Cynllunio Atodol diwygiedig a sicrhau cydymffurfedd rhwng dogfennau Canllawiau Cynllunio Atodol mabwysiedig y Cyngor.



No.

(4) Hysbysu'r Pwyllgor Cynllunio am fabwysiadu'r Canllawiau Cynllunio Atodol fel ystyriaethau perthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio yn y dyfodol.

**C246 MATER OEDD Y CADEIRYDD WEDI'I BENDERFYNU YN FRYS –**

PENDERFYNWYD – BOD y mater canlynol yr oedd y Cadeirydd wedi penderfynu arno ystyried y rheswm a roddwyd o dan bennawd y cofnodion.

**C247 CYNGOR BRO MORGANNWG – FFIOEDD A THALIADAU  
ARFAETHEDIG AR GYFER 2023/2024 (CYF) –  
(Mater yr oedd y Cadeirydd wedi penderfynu ei fod yn fater brys am y  
rheswm yr ystyriwyd y mater gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac  
Adnoddau Corfforaethol ar 15 Chwefror, 2023 a sylwadau wedi'u cyfeirio at y  
Cabinet i'w ystyried yn ei gyfarfod ar 27 Chwefror, 2023.)**

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol o 15 Chwefror, 2023.

Dywedodd yr Arweinydd, gan fod y cyfeiriad yn berthnasol i Gyllideb Derfynol 2023/24 ac Adroddiad Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2023/24 i 2028/29, a restrir fel Eitem 6 ar yr Agenda, y byddai'r cyfeiriad yn cael ei ystyried ochr yn ochr â'r adroddiad hwnnw.

Wedi ystyried y cyfeiriad, penderfynwyd wedi hynny:

PENDERFYNWYD – BOD y cyfeiriad yn cael ei ystyried ochr yn ochr ag Eitem 6 ar yr Agenda ynghylch Cyllideb Derfynol 2023/24 ac Adroddiad Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2023/24 i 2028/29.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys y cyfeiriad a thrafodaethau yn y cyfarfod.